



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cofrestru'r gweithlu addysg yng Nghymru

Ymgynghoriad plant a phobl ifanc

www.cymru.gov.uk



Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru eisiau i'r plant a'r bobl ifanc i gyd gael yr addysg a'r cyfleoedd gorau posibl mewn bywyd. Rydyn ni o'r farn bod y bobl sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn rhan bwysig o hyn.

Mae yna lawer o athrawon ysgol, cynorthwyrwyr addysgu, darlithwyr, staff cymorth dysgu a thiwtoriaid hynod dda sy'n gwneud gwaith gwych.

Dros y 10 mlynedd diwethaf, bu llawer o newidiadau mewn addysg. Mae yna fwy o lawer o gyrsiau i bobl ifanc eu dilyn trwy 'lwybrau 14-19' a mwy o lawer o bobl sy'n cefnogi athrawon mewn ysgolion.

Oeddech chi'n gwybod?

Mae'n rhaid i bawb sydd wedi cymhwyso i fod yn athro/athrawes ysgol gofrestru â **Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC)** ond nid oes yn rhaid i bobl eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc gofrestru.

Be' mae CyngACC yn ei wneud?

Mae **CyngACC** yn gwneud yn siŵr:

- eu bod nhw'n gwybod pwy yw'r athrawon yng Nghymru sydd wedi cymhwyso
- bod athrawon yn gofalu am les plant a phobl ifanc
- bod yr athrawon i gyd yn gweithio i'r un safonau proffesiynol, cod ymarfer a chanllawiau
- os yw athro/athrawes gwneud rhywbeth o'i le, yna bod camau'n cael eu cymryd i'w ddisgyblu.

Mae hefyd yn ein helpu ni a sefydliadau eraill i wneud yn siŵr bod athrawon yn cael hyfforddiant a datblygiad gyrfa.

Rydyn ni eisiau i unrhyw un sy'n gweithio mewn addysg gael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw i wneud eu swydd i'r un safon uchel ledled Cymru.

I wneud hyn, mae angen i ni wneud rhai newidiadau.



Rydyn ni eisiau gwneud newidiadau i **CyngACC** fel bod gennon ni gorff cofrestru sy'n gallu chwarae rhan fwy mewn gwneud y system addysg yng Nghymru'n well fyth i bawb.

Rydyn ni eisiau gwneud y newidiadau a ganlyn

1. Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod yn rhaid i'r staff i gyd sy'n addysgu plant a phobl ifanc gofrestru.

Mae hyn yn cynnwys:


- pob athro/athrawes addysg bellach
- tiwtoriaid mewn gweithleoedd a hyfforddwy'r sgiliau
- athrawon sydd heb gymhwyso
- cynorthwywyr dosbarth a chynorthwywyr dysgu
- yr holl staff cymorth dysgu
- gweithwyr ieuenctid.

Ni fyddai'r newidiadau yma'n effeithio ar bobl eraill sy'n gweithio mewn ysgolion, fel:

- derbynyddion
- ysgrifenyddion ysgol
- staff arlwyo a glanhau
- cynorthwywyr cylchoedd chwarae
- gwirfoddolwyr eraill.

Bydd hyn yn helpu staff sy'n gweithio mewn addysg i weithio i'r un safonau uchel ac i gael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw i gael eu hyfforddi ac ennill sgiliau. Bydd hefyd yn gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn cael addysg well fyth.

Byddai'r gofrestr yn cael ei diweddarau bob blwyddyn fel bod yr wybodaeth i gyd yn gyfoes.



2. Rydyn ni eisiau i grŵp o weithwyr proffesiynol, sy'n arbenigo mewn gwahanol feysydd addysg, oruchwylio holl waith y corff cofrestru newydd.

3. Rydyn ni eisiau i'r corff cofrestru newydd allu gwneud mwy o bethau.


Byddai'r rhain yn cynnwys:

- cadw cofrestr o bawb sy'n gweithio mewn addysg
- bod â chod ymarfer a safonau
- gwneud yn siŵr bod cyrsiau hyfforddi athrawon, a chysiau hyfforddi a datblygu eraill, o ansawdd da
- bod â gwybodaeth gyfoes am bawb, gan gynnwys eu swydd, eu rôl, lle maen nhw'n gweithio, ac unrhyw gymorth sydd ei angen ar gyfer hyfforddiant pellach.

Byddai'r newidiadau'n golygu y byddai'r corff cofrestru newydd yn gweithio'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru ac y byddai ganddo'r grym i ymchwilio i gwynion ynglŷn â phobl sydd wedi'u cofrestru â nhw.

Pan fyddai problem yn codi, bydden nhw'n gallu penderfynu a fyddai rhywun yn gallu parhau yn ei swydd neu a fyddai angen mwy o ymchwilio.

Pe bai'r achos yn cael ei brofi, bydden nhw'n gallu atal rhywun rhag gweithio mewn addysg lle bo angen hynny.



4. Byddai'n rhaid i bawb sy'n cofrestru â'r corff cofrestru newydd dalu ffi fach am gofrestru.

5. Rydyn ni eisiau edrych ar yr holl gymwysterau a chyrsgiau gwahanol sy'n cael eu cynnig a gweld a allwn ni ddatblygu canllawiau syml fel bod pawb yn deall pa gymwysterau sydd eu hangen ar gyfer pa swyddi. Rydyn ni'n gobeithio y bydd hyn yn gwella safonau mewn ysgolion.

6. Rydyn ni eisiau newid y gyfraith trwy'r Bil Addysg newydd er mwyn i ni allu gwneud y newidiadau yma.

Diolch am ddarllen hwn!

Rydyn ni eisiau cael gwybod beth yw'ch barn chi ar y newidiadau yma.
A fydddech chi cystal ag ateb y cwestiynau isod a'u hanfon at:

Nathan Huish
Yr Is-adran Cyflawni a Safonau Ysgolion
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: practicereviewanddev@cymru.gsi.gov.uk



Cofrestru'r gweithlu addysg yng Nghymru

Cwestiwn 1

Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n syniad da ei gwneud hi'n orfodol i bawb sy'n gweithio mewn addysg gofrestru?

Ydw Nac ydw Ddim yn gwybod

Sylwadau

Cwestiwn 2

Ydych chi'n meddwl y dylai grŵp o arbenigwyr helpu'r corff cofrestru newydd?

Ydw Nac ydw Ddim yn gwybod

Sylwadau

Cwestiwn 3

Ydych chi'n meddwl y dylai'r corff cofrestru newydd allu gwneud mwy?

Ydw Nac ydw Ddim yn gwybod

Sylwadau

Cwestiwn 4

Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n syniad da talu am gofrestru?

Ydw Nac ydw Ddim yn gwybod

Sylwadau



Cwestiwn 5

Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n syniad da edrych ar yr holl gymwysterau gwahanol ar gyfer gweithio mewn addysg?

Ydw Nac ydw Ddim yn gwybod

Sylwadau

Cwestiwn 6

Ydych chi'n meddwl y dylid rhoi'r grym i ni i wneud y newidiadau yma?

Ydw Nac ydw Ddim yn gwybod

Sylwadau

Cwestiwn 7

Oes yna unrhyw beth rydych chi'n meddwl ein bod ni wedi ei adael allan neu heb feddwl amdano yn y newidiadau yma?

Ydw Nac ydw Ddim yn gwybod

Sylwadau

Cwestiwn 8

Oes yna unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ddweud wrthon ni?

